

# Hannah Jelley

*Teitl PhD:* **Cyd-greu fframwaith Gwytnwch ar gyfer pobl â dementia a’u gofalwyr.**

*Dyddiad dechrau:* **2018**

*Dyddiad gorffen disgwyliedig:* **2024**

*Goruchwylwyr:* **Gill Windle, Sion Williams a Jaci Huws**

*Cyllidwr:* **Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru ar ran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru**

## Fy nghefndir

Cwblheais MSc mewn Sylfeini Seicoleg Clinigol ym Mhrifysgol Bangor yn 2009. Ers hynny, rwyf wedi ymrwymo fy hun i ymchwil, addysgu a dysgu dementia. Rwyf wedi gweithio ar brosiectau ymchwil amrywiol yn ystod y cyfnod hwnnw, yn amrywio o waith lleol i gydweithredu rhyngwladol o fewn sawl gwlad Ewropeaidd. Rwyf wedi arwain llawer o gyrsiau ar ddementia ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn ysbytai, cartrefi gofal, a staff mewn gwasanaethau amrywiol ledled Cymru.

## Fy ymchwil

Mae fy PhD yn archwilio gwytnwch mewn pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Mae hyn yn cynnwys defnyddio dulliau cymysg a damcaniaeth wreiddiedig i ddatblygu fframwaith adeiladu gwytnwch. Mae’r prosiect yn cael ei oruchwylio gan arbenigwyr trwy brofiad gyda'r nod i gyd-gynhyrchu'r fframwaith a fydd yn grymuso pobl sy’n byw gyda dementia a’u gofalwyr. Mae gennyf ddiddordeb arbennig yn yr hyn gall fod o gymorth i bobl y mae dementia’n effeithio arnynt a gwella gwasanaethau.

## Manylion cyswllt

Hannah Jelley
h.jelley@bangor.ac.uk

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Wedi’i ddiweddaru ddiwethaf: 05/10/2023